Cymdeithas Canolfan Noddfa (Rhif Elusen 1002368)

DARPARU GWASANAETH PENSAER

Yn atebol i: Y Pwyllgor Gwaith

Dyddiad Cychwyn: canol Ebrill 2024 neu cyn gynted â phosibl

Cyd-destun

Mae Cymdeithas Canolfan Noddfa yn elusen anghorfforedig a sefydlwyd yng Nghaernarfon yn 1991 i redeg Canolfan Noddfa (www.noddfa.cymru). Ein gweledigaeth yw *"creu cyfleoedd* i *wella ansawdd bywydau pobl Caernarfon - ac yn benodol trigolion Peblig - drwy ddarparu amgylchedd ddiogel, croesawgar ac ysbrydoledig i'r trigolion hynny gysylltu, cyfarfod a mwynhau cwmni ei gilydd gan fanteisio ar y cyfleoedd llesiant meddyliol a chorfforol a grëir yn y Ganolfan ".*

Ers ei hadeiladu yn 1977 bu Noddfa yn ganolbwynt a hwb cymunedol allweddol i gymuned Ysgubor Goch. Mae'r adeilad yn cynnwys dwy neuadd amlbwrpas, dwy ystafell gyfarfod, chwe swyddfa a chegin. Fe adeiladwyd yr estyniad yn y cefn sy'n cynnwys y ddwy ystafell gyfarfod yn 2010. Mae'n gartref i'r Cylch Meithrin mwyaf yng Ngwynedd ac y mae nifer o wasanaethau – gan gynnwys gwasanaeth milfeddygol gan yr RSPCA, gwasanaeth cyngor i drigolion, gwasanaeth crefyddol a chymorth bugeiliol, dosbarthiadau ffitrwydd, dosbarthiadau celfyddydol i blant, cynllun chwarae yn ystod gwyliau ysgol, dychwelyd i waith Gwaith Gwynedd a sawl un arall – yn gwneud defnydd o'r adeilad.

Yn dilyn Pandemig Covid 19 mae'r Gymdeithas wedi gorfod dechrau tynnu ar ei chronfeydd wrth gefn wrth weld lleihad yn ei hincwm refeniw a chynnydd mewn costau cynnal a chadw, yn enwedig gwres a golau. Er mwyn cynyddu ei incwm a chreu canolfan gymunedol hunangynhaliol yn y tymor hir mae angen gwella effeithlonrwydd ynni, ei gwneud yn fwy deniadol i ddefnyddwyr a chynyddu ffrydiau incwm, gan gynnwys denu mwy o sefydliadau / mudiadau yn llogi ystafelloedd a swyddfeydd yn y ganolfan.

Mae'r Gymdeithas wedi derbyn cymorth ariannol dan raglen Gronfa Ffyniant Bro Llywodraeth y DG i wella perfformiad ynni'r adeilad. Mae camau eisoes ar y gweill i adnewyddu'r systemau golau a gwres, i wella effeithlonrwydd ynni'r gragen ac ymestyn y ddarpariaeth paneli haul.

Mae'r Gymdeithas hefyd wedi derbyn cymorth ariannol dan raglen Grymuso Gwynedd i wireddu prosiect "*Dyfodol Llewyrchus i Noddfa*". Nod y prosiect yw sicrhau dyfodol mwy cadarn i'r adnodd pwysig hwn drwy "weithio'r ased yn galetach" a, thrwy hynny, ein galluogi i gynyddu ein hincwm er mwyn gallu dod â dau ben llinyn ynghyd.

Mae pedair elfen i gyd. Mae dwy elfen o'r prosiect yn edrych ar wella perfformiad ynni'r Ganolfan ac ar ei gwneud yn fwy deniadol i'w defnyddio. Mae elfen arall yn canolbwyntio ar wella'r modd y mae'r Ganolfan yn cael ei marchnata a'i hyrwyddo.

Bydd yr elfen hon o'r prosiect yn canolbwyntio ar benodi arbenigwr i edrych ar ddyluniad a "chynnig" y ganolfan " a chynnig syniadau ymarferol ar sut y gellir gwneud i'r adeilad weithio yn well ar ein cyfer. Y canlyniad yn y pen draw fydd adroddiad dichonoldeb a dyluniadau cychwynnol yn

Funded by UK Government
Wedi ei ariannu gan Llywodraeth y DU

cynnig opsiynau o ran gwella effeithiolrwydd a deniadolrwydd yr adeilad, a'r safle ehangach, Os yn briodol, nid yw hyn yn cau allan yr opsiwn i ymestyn yr adeilad.

Cwmpas y Gwasanaeth

Y mae'r Gymdeithas angen Pensaer (person neu gwmni) i fod yn gyfrifol am adolygu cynllun y Ganolfan a chynnig syniadau addas ac ymarferol ar sut i wella "perfformiad" a "deniadolrwydd yr adeilad a'r tir o gwmpas.

Prif dasgau y gwasanaeth fydd:

- Adolygu'r trefniadau presennol o ran maint, uchder a dyluniad ystafelloedd a'r ardaloedd symud a chylchredeg, gan gynnwys trafod cryfderau a gwendidau gyda defnyddwyr presennol a dyheadau at y dyfodol.
- Llunio opsiynau ymarferol o ran y ffordd ymlaen ar gyfer yr adeilad, gan gynnwys yr opsiwn o estyniad(au) os yn briodol, (hyd at Gam 2 Cynllun Gwaith RIBA).
- Llunio argymhellion i wella golwg a threfniadaeth 2 gofod swyddfa blaen yr adeilad.
- Llunio argymhellion o ran gwella'r ardaloedd tu allan (y blaen, y fynedfa a'r ffordd a'r llwybr ochr).
- Cyflwyno adroddiad ar y canfyddiadau i'r Pwyllgor Gwaith **dim hwyrach na Mai 3 2024**

Ffi – hyd at £2,250 (yn cynnwys TAW a chostau cysylltiedig os yn berthnasol)

Dyddiad Cau: Dydd Llun Ebrill 8, 2024 am 5 yr hwyr.

Dylid anfon eich cynnig naill ai drwy e-bost neu'r post at y canlynol

Mrs Helen Davies
Trefnydd,
Cymdeithas Canolfan Noddfa
Cil Peblig
Caernarfon
LL55 2RS
post@noddfa.cymru

Am fanylion pellach a sgwrs anffurfiol, cysylltwch â: Cyng. Dewi Jones, ar 07580 334554

Funded by UK Government
Wedi ei ariannu gan Llywodraeth y DU